



**Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi ar gyfer  
Cymru a Lloegr:**

**Cynllun Iaith Gymraeg - Adroddiad  
Monitro Blynyddol 2017**

## Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi gan yr Arolygydd gyda chyfrifoldeb ar gyfer ein Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer y cyfnod 01/01/17 hyd at 31/12/17.
2. Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (Arolygiaeth Prawf EM) yw'r arolygydd annibynnol o wasanaethau prawf a throseddau ieuencid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn adrodd ar effeithiolrwydd ar waith gydag oedolion a phlant sydd wedi troseddu. Rydym yn gweithredu o'n pencadlys ym Manceinion a'n swyddfa yn Llundain gyda chyllideb flynyddol o £4.35 miliwn ar gyfer 2017/18.
3. Yn ystod 2017, roedd gan Arolygiaeth Prawf EM un prif arolygydd cynorthwyol Cymraeg ei iaith yn gweithio llawn amser ac un arolygydd Cymraeg ei iaith yn cael ei gyflogi am waith sesiynol.
4. O dan ein cynllun darparu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2017/18 rydym yn ymrywmo i sicrhau, yn unol â *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*, wrth ymdrin â'n archwiliadau yng Nghymru, bod yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn cael eu trin ar sail cydraddoldeb, fel a amlinellir yn ein cynllun Iaith Gymraeg.

## Cynllunio a darparu gwasanaethau

5. Rydym yn cynllunio ac yn gweithredu archwiliadau yng Nghymru o waith troseddau oedolion ac ieuencid, weithiau ar y cyd ag arolygiaethau perthnasol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSiW), Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HiW) ac Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi a Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS). Rydym yn hyrwyddo ein cynllun Iaith Gymraeg trwy wyneud hyn a rydym yn ymwybodol o gynlluniau arolygiaethau eraill.
6. Rydym wedi ymrwmo i ddarparu o leiaf un arolygydd Cymraeg ei iaith ar ein rhaglenni craidd archwilio troseddau oedolion ac ieuencid yng Nghymru.
7. Mae ein harchwiliadau thematig yn edrych ar wasanaethau penodol o waith troseddau ieuencid ac oedolion ar draws Cymru a Lloegr. Rydym yn gofyn ymlaen llaw, pan mae hyn yn cynnwys archwiliad o wasanaeth yng Nghymru, a fydd unrhyw un yn dymuno cael cyfweiliad trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn darparu arolygydd Cymraeg ei iaith.
8. Mae ein harchwiliadau craidd o waith troseddau ieuencid ac oedolion yng Nghymru yn cynnwys ffocws ar ba mor dda mae'r asiantaeth wedi cydnabod anghenion yr iaith Gymraeg ac yna ymateb iddynt. Mae'r trafodaethau sydd yn digwydd ymhlith staff yn gweithio hefyd i hyrwyddo'r pwysigrwydd o gydnabod anghenion yr iaith Gymraeg yn eu gwaith.

9. Gellir cyflwyno gwybodaeth a geisiwyd gan Arolygiaeth Prawf EM cyn cynnal archwiliad naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Yn ystod cyfnod yr adroddiad, gwnaethpwyd pob cyflwyniad o'r math hwn yn Saesneg.

### **Archwiliadau a ddarparwyd yng Nghymru**

10. Rydym wedi cwblhau un archwiliad Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru yn ystod cyfnod yr adroddiad. Ni wnaethpwyd un cais am gael cyfweiliad trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym wedi arwain dau archwiliad thematig sydd wedi cynnwys ardaloedd yng Nghymru. Nid oedd arolygydd Cymraeg ei iaith yn rhan o'r archwiliad gan fod y cyrff oedd i'w harchwilio wedi datgan na fyddai angen am gael cyfweiliad ymhlith staff neu eraill yn Gymraeg.
11. Rydym yn manteisio ar bob cyfle, yn ystod ein harchwiliadau yng Nghymru, i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg a byddwn yn parhau i wneud hyn.
12. Yn ein harchwiliad o waith troseddau ieuenctid mewn un ardal o Gymru, nodwyd bod staff yn ateb galwadau ffôn gyda chyfarch iaith Gymraeg a bod staff yn ymwybodol o gydweithwyr Cymraeg eu haith a fydd yn gallu cynorthwyo gydag ymholiadau perthnasol eraill. Roedd digon o siaradwyr Cymraeg ymhlith y staff i alluogi Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg pe ddylai unrhyw blentyn neu berson ifanc yn dymuno cael hyn. Nodwyd y gallai'r cynnig hwn wedi cael ei wneud yn fwy rheolaidd.

### **Delwedd gyhoeddus y sefydliad**

13. Mae'r logos ar gyfer Arolygiaeth Prawf EM yn parhau i gael eu hargraffu mewn fformat dwyieithog. Mae'r bathodynau enwau mewn fformat dwyieithog fel y mae gyda cherdyn busnes ein harolygydd Cymraeg ei iaith sy'n cael ei gyflogi. Dynodir arolygwyr Cymraeg eu haith ar eu bathodynau enwau.
14. Mae adroddiadau ar ein harchwiliadau yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn gyfochrog yn Gymraeg a Saesneg. Mae ein hadroddiadau eraill fel ein Adroddiad Blynyddol yn dilyn yr un safonau. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi cyhoeddi un adroddiad ar waith troseddau ieuenctid mewn un ardal o Gymru ac un adroddiad ar waith troseddau oedolion mewn un ardal o Gymru. Yn y ddwy achos, roedd yr adroddiadau Cymraeg ar gael ar union yr un pryd â'r adroddiadau Saesneg.
15. Rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad archwilio thematig yn ystod cyfnod yr adroddiad yn gysylltiedig â Chymru a Lloegr. Roedd adroddiadau Cymraeg ar gael ar union yr un pryd â'n hadroddiadau Saesneg yn gysylltiedig â'r archwiliadau hyn.
16. Aethom ar gyfeiliorn yn ein gwaith yn gysylltiedig â chyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol oherwydd y newid tynn oedd angen ar gyfer adroddiad eleni. Mae'r Prif Arolygydd wedi cael gwybod am yr oedi hwn a bydd hyn yn cael ei gywiro cyn gynted â phosibl.

- 17.** Mae ein dogfennau model a fframwaith archwilio ymhlith oedolion a'n meini prawf archwilio ar gyfer Sgrinio Ansawdd Byr (SQS) o Wasanaethau Troseddau Ieuencid wedi bod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae adroddiadau wedi'u cyhoeddi yn cael eu hyrwyddo ar Twitter gyda theitl dwyieithog.

### **Cyfathrebu ehangach**

- 18.** Mae Arolygiaeth Prawf EM wedi parhau i ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu a gymeradwywyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rydym wedi paratoi rhestr o dermau a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer ein darparwr cyfieithu er mwyn sicrhau cysondeb. Byddwn ni'n parhau i fonitro ansawdd y gwasanaeth hwn.
- 19.** Mae ceisiadau ar gyfer cyfweliadau'r cyfryngau yn Gymraeg yn cael eu cyfeirio at ein Prif Arolygydd Cynorthwyol Cymraeg ei iaith. Darlledwyd un cyfweliad cyfryngau yn Gymraeg, yn ystod cyfnod yr adroddiad, gyda'r Prif Arolygydd Cynorthwyol.
- 20.** Rydym wedi hysbysebu yn ddiweddar ar gyfer swyddi arolygyddion a chynnwys yn yr hysbyseb ein bod yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith.
- 21.** Nid ydym wedi derbyn unrhyw alwadau na gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ein swyddfeydd ym Manceinion na Llundain yn ystod cyfnod yr adroddiad ac nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion ynghylch ein Cynllun Iaith Gymraeg.

### **Hyfforddiant a datblygiad staff**

- 22.** Nid oes unrhyw hyfforddiant penodol wedi ei gyflwyno mewn perthynas â'n Cynllun Iaith Gymraeg nac archwilio yng Nghymru, yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae pob aelod newydd o staff, fel rhan o'u rhaglen sefydlu, yn cael arolwg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd yn cynnwys ein cyfrifoldebau ac ymrwymïadau mewn perthynas ag archwilio yng Nghymru.
- 23.** Rydym wedi gwella ein cyswllt gyda Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod adrodd hwn drwy gysylltu yn rheolaidd â'r Ysgrifennydd y Cabinet priodol a swyddogion yn gyfrifol am ddiogelwch y gymuned gan ei bod yn gysylltiedig â'r system troseddu a chyfiawnder. Mae hyn wedi gwella ein dealltwriaeth o drefniadau a ddatganolwyd ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant yng Nghymru.
- 24.** Mynychwyd gweithdy 'Hawliau'n Gwreiddio' Comisiynydd y Gymraeg gan ein arolygydd gyda chyfrifoldeb ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg er mwyn cefnogi a chryfhau dealltwriaeth Arolygiaeth Prawf EM ynglŷn â sut i hyrwyddo ein gwasanaethau yn Gymraeg yn effeithiol a sut i gynnig gwasanaeth Cymraeg i asiantaethau a defnyddwyr eraill yn effeithiol.

- 25.** Rydym wrthi yn datblygu dull newydd tuag at archwiliadau prawf ac ieuencid sydd yn seiliedig ar ffurf glir o safonau. Wrth ddatblygu'r safonau hyn, cynhaliwyd nifer o weithdai gyda darparwyr prawf a chynrychiolwyr Gwasanaethau Troseddau Ieuencid, gan gynnwys llefaryddion o wasanaethau yng Nghymru. Ymgynhorom ynghylch ein fframwaith safonau arfaethedig a'n cynlluniau ar gyfer archwiliad.
- 26.** Bydd ein rhaglen newydd yn amodol ar asesu effeithiau ar gydraddoldeb a thrwy arolygiaeth ein grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth byddwn ni'n gweithio i sicrhau bod y rhaglen yn cwrdd â gofynion ein Cynllun Iaith Gymraeg.

### **Trefniadau'r dyfodol**

- 27.** Bydd Tony Kirk, Arolygydd Prawf EM, yn cael prif gyfrifoldeb ar gyfer ein Cynllun Iaith Gymraeg, yn adrodd i Helen Davies, Prif Arolygydd Cynorthwyol, a fydd yn adrodd i'r Prif Arolygydd Prawf EM.

#### **Tony Kirk**

Arolygydd Prawf EM

Ar ran

#### **Y Fonesig Glenys Stacey**

Prif Arolygydd Prawf EM